

Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig

Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru – Craffu cyffredinol a chostau byw

Yr argyfwng costau byw

Mae prisiau defnyddwyr ledled y DU wedi codi 9% eleni hyd at fis Ebrill, y gyfradd chwyddiant uchaf mewn 40 mlynedd ac yn uwch o lawer na tharged Llywodraeth y DU o 2%. Cafodd y cynnydd ei ysgogi'n bennaf gan gostau ynni, ond chwaraeodd prisiau bwyd rôl sylweddol hefyd.

O ganlyniad i brisiau sy'n codi'n gyflym, daeth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i'r casgliad y byddai 2022–23 yn gweld y gostyngiad mwyaf mewn safonau byw ers i gofnodion ddechrau.

Er ein bod yn croesawu'r mesurau newydd mae Llywodraeth y DU wedi'u cyhoeddi, nid yw'r Canghellor wedi mynd yn ddigon pell i leihau'r baich ar y cartrefi tlotaf, ac mae'n dangos nad yw'n ymwybodol o'r effaith mae'r costau hynod uchel hyn yn ei chael ar gartrefi.

Y cyfan mae'r £1,200 y mae'r Canghellor wedi'i addo ar gyfer y cartrefi tlotaf yn ei wneud yw gwneud iawn am y £1,040 a gollwyd gan dderbynyddion Credyd Cynhwysol, pan gafodd yr ychwanegiad o £20 ei dynnu y llynedd.

Nid yw'r mesurau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 26 Mai wedi newid y ffaith mai cynnydd o £27 miliwn yn unig i gyllid adnoddau Llywodraeth Cymru y flwyddyn ariannol hon a gafodd ei gyhoeddi gan y Canghellor, yn ei Ddatganiad y Gwanwyn. Mae hyn o'i gymharu â'r pecyn gwerth £380 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu teuluoedd gyda biliau sy'n codi.

Yn ogystal, disgwylir i effaith Cytundeb Parhad Masnach y DU a'r UE ar economi'r DU fod ddwywaith cymaint ag effaith y pandemig. Mae busnesau'n cael trafferth masnachu yng ngwledydd yr UE, neu maent yn wynebu costau uwch o lawer neu diffyg staff. Mae'r ymchwil ddiweddaraf yn awgrymu bod Brexit wedi ychwanegu 6% at filiau bwyd ym Mhrydain.

Yn 2022–23, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi busnesau bach a chanolig drwy ddarparu cymorth wedi'i dargedu gydag ardrethi annomestig, gwerth £116 miliwn, ar gyfer busnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch.

Byddwn yn parhau i wneud popeth yn ein gallu i amddiffyn pobl Cymru rhag effeithiau'r argyfwng costau byw difrifol hwn, a byddwn yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i wneud mwy.

Datgarboneiddio

Bydd dod â'r ddibyniaeth ar danwyddau ffosil i ben a newid yn gyflymach i ynni adnewyddadwy ac ynni mwy effeithlon yn cael effaith sylweddol ar leihau costau ynni ledled y Byd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn helpu busnesau i wneud y newid hwn. Mae ein gwasanaeth cyngori Busnes Cymru yn ymdrin a phopeth o ynni a gwastraff i fesurau effeithlonrwydd dŵr.

Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd fel rhan o newid i Sero-net yw hefyd uchelgais cyffredinol ein Strategaeth Seilwaith Buddsoddi gwrth £8.1 biliwn. Yn benodol byddwn yn agor ein dulliau teithio gwyrdd i ragor o bobl, gan ddarparu rhagor o ddewis ynghylch o ffordd rydym i gyd yn teithio, yn ogystal â gosod y sylfeini ar gyfer buddsoddi mwy mewn prosiectau ynni adnewyddadwy.

Y mis diwethaf, gwnes i ddatganiad ar y gweithgareddau o fewn y sector ynni ar y môr sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, a'r ffocws ar effaith bosibl y sector ar economïau lleol wrth ddarparu swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel yma yng Nghymru.

Lle mae gennym y pwerau sydd eu hangen, byddwn yn buddsoddi i gefnogi ein busnesau i gyrraedd eu llawn botensial. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar waith teg a datblygu'r gadwyn gyflenwi leol.

Byddwn hefyd yn edrych ar ein Strategaeth Arloesi newydd yn hwyrach eleni, er mwyn atgyfnerthu'r ffocws ar dechnolegau morol sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys ddefnyddio technolegau ynni ar y môr i gynhyrchu hydrogen.

Cyflogadwyedd a Sgiliau

Rwyf hefyd wedi datgan ein bwriad i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero-net. Rydym yn gweld datblygu'r cynllun yn gyfle unigryw i newid i sero-net mewn modd teg.

Hefyd, yn erbyn cefndir ariannol llym, gan gynnwys colli cyllid gwerth £1.1 biliwn yn dilyn ymadael â'r UE, mae fy Nghynllun newydd ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau yn darparu cynnig cyflogadwyedd a sgiliau sy'n hanfodol i'n tasg gyffredin i sicrhau bod Cymru yn opsiwn deniadol ar gyfer rhagor o bobl a busnesau.

Ar gyfer y rhai sydd bellach o'r farchnad lafur, a'r rhain mae'r argyfwng costau byw wedi cael yr effaith drymaf arnynt, bydd y cynllun yn eu helpu i ymdopi â'r heriau y byddant yn eu hwynebu mewn perthynas â gwaith drwy gydol eu hoes, ac i ymateb i'r heriau hynny – boed hynny drwy hyfforddi, ailhyfforddi, uwchsgilio, newid gyrfa neu ddechrau busnes.

Bydd yn ein helpu ni i ddarparu'r sgiliau sydd eu angen ar fusnesau Cymru, drwy fanteisio i'r eithaf ar ein talent yng Nghymru, gan ysgogi amrywiaeth yn y gweithlu a llunio economi sy'n gweithio i bawb.

Fel rhan o'n camau i wneud gwaith yn decach, rydym yn defnyddio ein dylanwad i wella nifer y cyflogwyr sy'n mabwysiadu a chael eu hachredu ar gyfer y Cyflog Byw Gwirioneddol, Mae hyn yn cynnwys:

- arwain drwy esiampl fel cyflogwr sy'n talu Cyflog Byw Gwirioneddol;
- dechrau cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ym maes gofal cymdeithasol;
- annog cyflogwyr yng Nghymru i archwilio manteision y Cyflog Byw Gwirioneddol, iddyn nhw ac i'r rhai maent yn eu cyflogi.

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chynnal cymru fel y partner ar gyfer achredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru. Rydym yn cefnogi'r gwaith maent yn ei wneud wrth hyrwyddo'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ac wedi'i helpu i adeiladu capasiti yn eu gallu i gynnwys cyflogwyr yn yr agenda hon.

Yn ôl y Sefydliad Cyflog Byw, yn 2021 y gyfran o gyflogeion yng Nghymru a oedd yn derbyn o leiaf y Cyflog Byw Gwirioneddol oedd 82.1%. Mae hyn wedi codi o 74.70% yn 2015, gan gau'r bwch â'r ffigur cyfatebol ar gyfer y DU gyfan (82.9%).

Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Cyhoeddwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU yn 2017, ond ni chafodd Llywodraeth Cymru ei chynnwys mewn unrhyw trafodaethau o sylwedd ynghylch polisi a strwythur y gronfa tan ddechrau mis Ebrill eleni. Gwnaeth Llywodraeth y DU ruthro i gyhoeddi ei phrosiectws lai na phythefnos wedyn ar 13 Ebrill, cyn y cyfnod cyn-etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

Mae Llywodraeth Cymru yn wynebu golled o £1.1 biliwn mewn cyllid Strwythurol a Gwledig, nad yw wedi'i ddisodli, rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025.

Cyfanswm y cyllid gwledig gwerth £243 miliwn a gollwyd a'r diffyg mewn cyllid strwythurol gan yr UE gwerth £772 miliwn yw ychydig dros £1 biliwn. Os cymhwysir yr un addasiad ar gyfer chwyddiant i gyllid gwledig ag i'r cyllid strwythurol, cyfanswm y diffyg yng nghyllideb Cymru yw dros £1.1 biliwn. Effaith uniongyrchol colli'r cyllid hwn yw nad yw buddsoddiadau mawr mewn creu swyddi, cefnogi busnesau, ymchwil a datblygu, sgiliau a threchu tlodi yn cael eu gwneud yng Nghymru fel y byddent fel arall.

Mae'r cyfrifiad rydym wedi'i ddefnyddio i ddangos y gostyngiad yn y cyllid y byddai Cymru wedi'i dderbyn yn dilyn y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys y cyllid ychwanegol arall rydym wedi'i golli drwy golli ein mynediad at raglenni cyllid eraill yr UE, gan gynnwys Erasmus, Horizon a Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd – cyllid nad yw wedi cael eu disodli yn llwyr gan Lywodraeth y DU. Ar 4 Mai, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig yn rhoi manylion y cyllid hwn mae Cymru wedi'i golli o ganlyniad i Lywodraeth y DU yn torri ei haddewidion i ddisodli yn llawn gyllid yr UE¹. Mae'n cynnwys addasiadau ar gyfer chwyddiant:

¹ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-colli-cyllid-i-gymru-o-ganlyniad-i-drefniadau-llywodraeth-y-du-ar-gyfer>

Cyfnod	Dyraniad Cymru o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin	Y cyllid pe bai Cymru wedi parhau i fod yn yr UE	Y diffyg i Gymru
Ionawr – Mawrth 2021	--	£79 miliwn	£79 miliwn
2021–22*	£47 miliwn	£316 miliwn	£269 miliwn
2022–23	£89 miliwn	£329 miliwn	£240 miliwn
2023–24	£153 miliwn	£337 miliwn	£184 miliwn
2024–25	£343 miliwn	£343 miliwn	£0 miliwn
Cyfanswm	£632 miliwn	£1,404 miliwn	£772 miliwn

*Cyllid a ddyfarnwyd ar gyfer 2021–22 drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol (y gronfa beilot ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU)

Yn ogystal, mae Llywodraeth y DU, pan fydd yn darparu cyllid ar gyfer ffermydd yn lle cyllid gan y UE, yn didynnu derbyniadau o'r UE sy'n daladwy i Gymru am waith a oedd yn rhan o Raglen Datblygu Gwledig 2014–20. Mae hyn yn golygu hefyd fod cymunedau gwledig Cymru ar eu colled o £243 miliwn o'i gymharu â phe baem wedi aros yn y UE.

Gyda'i gilydd, cyfanswm y toriadau hyn i gyllideb Cymru ar gyfer y cyfnod yw dros £1 biliwn:

Cyfnod	Dyraniad Cymru o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin	Y cyllid pe bai Cymru wedi parhau i fod yn yr UE	Y diffyg yng nghyllid yr UE ar gyfer ffermydd	Y diffyg i Gymru
2020	--	--	£42 miliwn**	£42 miliwn
Ionawr – Mawrth 2021	--	£79 miliwn	--	£79 miliwn
2021–22*	£47 miliwn	£316 miliwn	£95 miliwn†	£364 miliwn
2022–23	£89 miliwn	£329 miliwn	£85 miliwn	£325 miliwn
2023–24	£153 miliwn	£337 miliwn	£21 miliwn	£205 miliwn
2024–25	£343 miliwn	£343 miliwn	£0 miliwn	£0 miliwn
Cyfanswm	£632 miliwn	£1,404 miliwn	£243 miliwn	£1,015 miliwn

* Cyllid a ddyfarnwyd ar gyfer 2021–22 drwy'r Gronfa Adfywio Cymunedol (y gronfa beilot ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU)

** Wedi'i drosglwyddo o Golofn 1 y PAC i Golofn 2 y Rhaglen Datblygu Gwledig yn 2020,

† Derbyniadau'r UE a gafodd eu debydu o gyllid newydd yr UE yn 2021–22,

Gyda'i gilydd, mae'r cyllid gwledig gwerth £243 miliwn a gollwyd, gyda'r diffyg o £772 miliwn mewn cyllid strwythurol o'r UE, a chyda'r un addasiad ar gyfer chwyddiant yn cael ei gymhwyso i gyllid gwledig ag i gyllid strwythurol, cyfanswm y diffyg i gyllideb Cymru yw dros £1.1 biliwn. Gwnaeth Llywodraeth y DU gyfuno mesur o Fynegai

Amddifadedd Lluosog Cymru â mesur o'r boblogaeth a'i fformiwla ar gyfer y Gronfa Adfywio Cymunedol mewn ffordd sy'n rhoi'r awdurdodau lleol mwy poblog yng Nghymru o dan anfantais. Cynigiodd Llywodraeth Cymru fformiwla yn seiliedig ar Fyngai Amddifadedd Lluosog Cymru, a fyddai wedi dosbarthu cyllid mewn ffordd decach ledled Cymru yn ôl angen economaidd, ond cafodd y cynnig hwn i wrthod gan Lywodraeth y DU.

O ganlyniad, mae dau o'r awdurdodau lleol sydd ag anghenion datblygu cymharol uchel – Rhondda Cynon Taf a Chaerffili – wedi derbyn dyraniadau fesul pen sydd brin yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Yr effaith ar wario strategol Llywodraeth Cymru

Roedd cyllid o'r UE yn chwarae rôl sylweddol wrth gefnogi blaenoriaethau strategol hirdymor Cymru mewn meysydd fel ymchwil a datblygu, ynni, seilwaith a sgiliau. Mae colli'r cyllid hwn yn peri cryn broblemau i'r dirwedd gyllid ac i allu Llywodraeth cymru i gefnogi meysydd strategol, fel yr oeddem gyda cyllid o'r UE.

Mae Llywodraeth Cymru wedi atal Llywodraeth Cymru rhag cael mynediad at y cyllid hwn a rhag cymryd rhan yn y penderfyniadau ynghylch dosbarthu'r cyllid.

O ganlyniad, rydym eisoes yn gwneud penderfyniadau anodd mewn perthynas â'n blaenoriaethau – fel diogelu ein hymrwymiad i brentisiaethau, Busnes Cymru a Chymunedau am Waith, sydd wedi cael eu hariannu yn rhannol gan yr UE ers blynyddoedd lawer.

Materion datganoli

Mae defnydd Llywodraeth y DU o bwerau ei Deddf Marchnad Fewnol i ymyrryd â pholisïau sydd wedi cael eu datganoli, drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ymhlith amrediad o weithgareddau mae'n eu cymryd i wario arian a gweithredu polisi y DU yng Nghymru, heb oruchwyliaeth Senedd etholedig Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn atebol i'r Senedd am y ffordd mae'n gwario arian cyhoeddus. Nid yw'r ffordd mae Llywodraeth y DU yn gwario arian yng Nghymru yn derbyn yr un lefel o graffu. Nid yw lleisiau Cymru yn cael yr un dylanwad yn San Steffan ag y maent yma.

Mae Llywodraeth y DU yn gwrthod derbyn y setliad datganoli yn barhaus. Mae'n tanseilio pwerau'r Senedd a Llywodraeth Cymru, a gafodd eu hethol drwy broses democrataidd, i lywodraethu a goruchwyllo'r meysydd o fywyd cyhoeddus sydd wedi cael eu datganoli.

Ymchwiliad y Pwyllgor i Fanwerthu, Lletygarwch a Thwristiaeth

Y Sector Manwerthu

Mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar arferion defnyddwyr, gyda goblygiadau difrifol posibl ar gyfer y sector manwerthu. Bydd effaith anochel ar y manwerthwyr hynny sy'n gwerthu nwyddau a gwasanaethau dewisol, oherwydd mai rhoi'r gorau i

wario arian ar eitemau dewisol yw'r peth cyntaf mae defnyddwyr yn debygol o'i wneud pan fydd arian personol yn dynn. Mewn modd tebyg, bydd disgwyladau a phwysau ar y manwerthwyr hynny sy'n gwerthu nwyddau a gwasanaethau hanfodol, o ystyried yr effaith y bydd prisiau uwch yn ei chael ar incwm cartrefi.

O ran costau ynni uwch, mae'r cynnydd hwn yn gymaint o ergyd ac yn arwain at yr un math o ganlyniadau i fusnesau ag y maent i ddefnyddwyr. Ar gyfer rhai manwerthwyr, pe bai eu biliau ynni'n codi £20,000, byddai angen cynyddu eu gwerthiannau bron £100,000 i dalu'r bil hwnnw. Mae costau cynhyrchion a chostau cyflogau uwch yn gwaethgu'r pwysau hyn.

Rwy'n ymwybodol iawn nad oes unrhyw atebion cyflym, datrysiadau hawdd na chyllidebau diderfyn. Yr hyd sydd gennym, fodd bynnag, yw ein parodrwydd i weithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda Llywodraeth Cymru, cyflogwyr, cyrff sy'n cynrychioli busnesau a'r undebau llafur i ddeall beth yw'r sefyllfa bresennol, yr hyn yr hoffem ei gyflawni a sut y gallwn wneud hynny.

Y llynedd, gyda chymorth y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, gwnaethom sefydlu'r Fforwm Manwerthu i chychwyn y drafodaeth hon. Gwnaethom gyhoeddi [Datganiad Sefyllfa](#) ym mis Mawrth, a bydd Gweledigaeth Strategol Gyffredin ar gyfer Manwerthu yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar ddiwedd y mis (Mai) – a fydd yn amlinellu ein camau hyd yn hyn ynghyd â'n huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Yn y cyfamser, yn ystod y misoedd nesaf rwy'n bwriadu datblygu cynllun cyflawni, gan ystyried unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor yn dilyn ei ymchwiliad ei hun i'r sector manwerthu (a lletygarwch a thwristiaeth).

Twristiaeth a Lletygarwch

Rydym yn uchelgeisiol dros Gymru wrth inni edrych ymlaen at yr haf, ac mae gan ein sectorau twristiaeth a lletygarwch rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi Cymru wrth inni adfer o'r pandemig yn economaidd ac yn gymdeithasol.

Mae ein strategaeth, *Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr*, yn amlinellu ein gweledigaeth a'n huchelgais ar gyfer y sector. Ein huchelgais yw datblygu twristiaeth er budd cymru, gan gydbwyso twf economaidd, cynaliadwyedd amgylcheddol, anghenion cymdeithasol a diwylliannol, ac iechyd a llesiant, ynghyd â diwallu anghenion cymunedau lleol.

Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd trafod **rhannu** manteision, annog rhagor i **wario** yn ein heconomi a mynd i'r afael â **natur dymhorol** y sector drwy werthu Cymru fel gwlad y gallwch ymweld â hi ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Rydym yn cydnabod bod heriau parhaus, a bydd ein ffocws a'n hymrwymiad yn gofyn am ymateb effeithiol. Mae'r sector yn wynebu heriau yn y tymor byr a'r hirdymor, fel chwyddiant, yr argyfwng costau byw, costau ynni, sgiliau a recriwtio ac ati.

Mae'r ffaith bod yr heriau hyn yn dod ar yr un pryd ag y mae'r sector yn ceisio adfer o'r pandemig yn golygu bod gan bobl lai o arian gwario –ac yn llai tebygol o fynd allan, mynd ar wyliau neu ymweld ag atyniadau. Felly, mae'n debyg y bydd y sector twristiaeth a lletygarwch yn dioddef effeithiau difrifol o ganlyniad i'r cyfuniad hyn o ffactorau. Rydym yn llawn ymwybodol y bydd angen gweithredu parhaus yn ystod y blynyddoedd nesaf, i helpu'r sectorau hyn fod yn gynaliadwy unwaith eto, ac i gyfrannu at adferiad Cymru.

Yn ôl Baromedr Twristiaeth y Gwanwyn, mae 29% o fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn ceisio llenwi swyddi gwag, gyda 63% o'r rhain yn profi cryn anawsterau. Y prif themâu o hyd yw denu pobl yn ôl i weithio yn y sector neu i waith o gwbl. Mae effeithiau anawsterau wrth recriwtio'n parhau i fod yn sylweddol, gyda rhai busnesau yn methu agor mor llawn neu mor aml ag yr hoffent.

I ymateb, ac mewn partneriaeth â'r Bartneriaeth Sgiliau Twristiaeth a Sgiliau Cymru a arweinir gan y diwydiant, lanswyd ymgyrch ym mis Awst 2021 i gefnogi'r sector drwy godi ymwybyddiaeth o'r nifer uchel o swyddi gwag a'r amrywiaeth o ddewisiadau gyrfya sydd ar gael.

Mae'r ymgyrch yn cael ei chyflawni mewn partneriaeth â Chymru'n Gweithio [Gweithio ym maes lletygarwch a thwristiaeth \(llyw.cymru\)](#) – sy'n darparu un llwybr syml ar gyfer pobl ifanc.

Ynghynt y mis hwn, ac i gyd-fynd ag Wythnos Twristiaeth Cymru, cyhoeddais y prosiectau a fydd yn derbyn cyllid gan Gronfa'r Pethau Pwysig eleni.

Bydd y gronfa £2.9 miliwn ar gyfer 2022–23 yn cael ei rhannu rhwng 18 o brosiectau a fydd yn cyflawni gwelliannau seilwaith ar raddfa fach mewn lleoliadau twristiaeth ledled Cymru.

Mae'r cyllid yn cefnogi awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol i wneud gwelliannau a fydd o fudd i ymwelwyr a chymunedau lleol. Eleni mae'r gronfa yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys mentrau i helpu i leihau pwysau mewn ardaloedd lle mae nifer yr ymwelwyr wedi codi, prosiectau i wella hygyrchedd a prosiectau sy'n gwneud eu cyrchfannau yn fwy amgylcheddol gynaliadwy.

Crynodeb

Er yr heriau y soniwyd amdanynt, byddwn yn parhau i gyflawni ein gweledigaeth i wneud Cymru yn lle deniadol i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo, gan gynnwys ansawdd bywyd mewn gwlad gynhwysol, agored a gwyrdd,

Mae holl Gabinet Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu'r amodau lle mae pobl yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch cynllunio eu dyfodol yn Nghymru.

Her gyntaf [Bwrdd Cyngori'r Gweinidog](#) rwyf newydd ei benodi yw'r dasg o adeiladau ar ein gwaith hyd yn hyn.

Pan fyddaf yn siarad â buddsoddwyr posibl, neu'r rhai sydd eisoes wedi dod i Gymru, mae hefyd y rhaglen gydlynus, y sefydlogrwydd gwleidyddol a'r dull partneriaeth mae Cymru yn eu cynnig sy'n rhoi'r fantais ychwanegol honno inni.

Mae ein dull partneriaeth gymdeithasol wedi chwarae rôl hanfodol yn hyn o beth, nid yn unig drwy ddod â phobl at ei gilydd i hyrwyddo gwaith teg a swyddi gwell, ond hefyd fel cenedl noddfa – gan grynhoi dull Tîm Cymru i'r dim.